

Papur Pawb

Pris: 50c

Medi 2019

Rhif 451



Barnu'r defaid zwartbles yn Sioe Tal-y-bont. Y canlyniadau a lluniau oddi mewn

oddi mewn:

Atodiad Lliw a Stori Dditectif Newydd Gyffrous

Ail-Wylltio yn Gwylltio Ffermwyr

Mae'r prosiect *O'r Mynydd i'r Môr* wedi'i feirniadu'n hallt gan ffermwyr lleol. Gwelant y prosiect arloesol hwn yn fygythiad i'w bywoliaeth ac yn andwyol i ddyfodol cymunedau'r ardal.



Ben Lake yn traethu

Daeth dros gant o ffermwyr yn ogystal â thrigolion lleol i gyfarfod agored a drefnwyd gan Undeb Amaethwyr Cymru yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar 31 Gorffennaf i leisio eu barn ar y prosiect.

Nid oedd neb yno yn cynrychioli 'Rewilding Britain', sy'n arwain y prosiect, er bod rhai o'r isbartneriaid yn bresennol, ac fe geisio nhw esbonio eu safbwyntiau.

Yn cadeirio'r cyfarfod, yn ei ddull lliwgar arferol oedd Alun Elidyr, a chafwyd areithiau grymus gan Nick Fenwick ar ran yr undeb, Helen Mary Jones ac Elin Jones ein cynrychiolwyr yn y Cynulliad a'r Aelod Seneddol Ben Lake.

Pwysleisiodd y siaradwyr nad oedd modd gorfodi ffermwyr i werthu eu tiroedd. Serch hynny, roedd awyrgylch o bryder yn y cyfarfod, gyda dicter yn codi i'r wyneb ar adegau.

Rhai dyddiau wedi'r cyfarfod derbyniodd *Papur Pawb* ddatganiad i'r wasg gan y prosiect sy'n awgrymu newid cywair yn agwedd arweinwyr y prosiect. Pwysleisir yn y

datganiad bod y prosiect yn gwrando ar bryderon pobl:

'Rydym yn deall bod pobl yn poeni am y newidiadau all ddigwydd i'r tir, beth mae'n ei olygu i ffermio, iaith a diwylliant Cymru, a phwy sy'n gyrru'r prosiect.

Rydym yn sylweddoli bod angen inni wrando'n fwy gofalus, a gadael i bobl wybod beth sy'n digwydd.

Mae yna rai pethau yr hoffem eu hegluro ar unwaith. Mae cymryd rhan mewn unrhyw ffordd yn *O'r Mor i'r Mynydd* yn gwbl opsiynol, ac nid oes gan y prosiect unrhyw awydd na phŵer i orfodi unrhyw un i adael eu tir. Ni fyddwn yn hyrwyddo pryniant tir, ac ni ddefnyddir unrhyw ran o'r cyllid o 3.4m i brynu tir. Rydym am gefnogi arferion ffermio cynaliadwy, gan gynnwys pori anifeiliaid a chynhyrchu cig. Ac nid ydym am ail-gyflwyno anifeiliaid ysglyfaethus fel bleiddiaid neu lyncs.'

Prosiect hirdymor yw *O'r Mynydd i'r Môr* sydd ag amcanion, yn ôl ei wefan, '... i adfer ecosystemau ffyniannus ac economi leol gydnerth dros yr 20 mlynedd nesaf fan leiaf a llawer o ddegawdau ar ôl hynny.' Mae'r tir dan sylw yn ymestyn o gyrion Pumlumon i'r môr ac yn cynnwys oddeutu 155,000 erw.

Golyga cais llwyddiannus gan y prosiect i'r Rhaglen Tirweddau mewn Perygl (Cronfa Arcadia) bod £3.4 miliwn o gyllid wedi'i sicrhau i bartneriaid *O'r Mynydd i'r Môr* dros bum mlynedd. Yn ôl y prosiect:

'Arian newydd yw hwn, o'r tu allan i Gymru. Bydd yn cefnogi ymdrech sylweddol barhaus i greu cyfleoedd newydd yn ardal y prosiect a seilwaith i sicrhau newid i'r dyfodol. Bydd hefyd yn ein helpu i ddod â buddsoddiad ychwanegol i mewn a datblygu cyfleoedd economaidd eraill i gynnal y gwaith dros y tymor hir.'

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578
Parsel Henllys: Lynwen Morgan 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028
(01654) 781264
Eglwysfach/Ffwrnais: Non Griffiths
Rhwydweithiau cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Is-gadeirydd: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgrifiadau: Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

CYMRAG

Llythyron

Meisgyn,
Pontyclun

Cofiwch beth ddigwyddodd i Dryweryn

Bum mewn cyfarfod yn y Neuadd Goffa Nos Fercher olaf ym mis Gorffennaf, lle 'roeddynt yn trafod cais chwech o bobl gefnog Lloegr a thramor, sut ddylem drafod Cymru yn y dyfodol. Yr oedd un ohonynt yn un o'r deg person cyfoethoca'r byd. Yr oeddent yn barod i brynu daear Cymru o Lanidloes i'r môr, i wylltio Cymru.

Cefais siom fawr iawn o'r asiantaethau Cymreig sydd yn eu cefnogi. Ac yn waeth byth fod y Blaid Lafur yn y Cynulliad yn eu cefnogi. Maent wedi dechrau yn barod. Mae rhywun o dde Lloegr wedi prynu Lluet ym mhen uchaf Cwm Einion i'w wylltio, a throï ceffylau i bori a march gyda nhw. Nid yw'r perchennog wedi bod un waith yn eu gweld.

Rhaid i ni fod yn ofalus iawn nad anghofiwn DRYWERYN, 'rydym wedi colli ein dŵr eisoes, ac mi gollwn ein daear o dan ein trwyne os na fyddwn yn bur ofalus. Diolch nad yw Plaid Cymru yn eu cefnogi.

Gwilym Jenkins

Annwyl ffrindiau

Hoffem ddiolch i'r holl ffrindiau o ardal *Papur Pawb* am y cardiau a'r cyfarchion a dderbyniwyd ar ein Priodas Aur ar 16 Awst. Cawsom ddathliad yng nghwmni'r teulu, yn cynnwys y chwech o wyrion a wyresau.

Hanner can mlynedd i'r mis hwn y symudon ni i Dalybont, gan fwriadu aros yno am ddim mwy na chwe mis, ond aeth y chwe mis yn 44 mlynedd! Diolch i bawb am yr atgofion hapus.

*Gyda chofion cynnes,
Eleri a Gwilym*

Maesgwyn,
Tal-y-bont

Annwyl ffrindiau

Diolch o waelod calon i bob un a fu nid y unig ynghlwm â'm henwebiad ar gyfer Gwobr Goffa T H Parry-Williams ond hefyd yn rhan o'r trefniadau, y digwyddiadau a'r seremoni ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst. Roedd cael disgyblion a chyn-ddisgyblion Ysgol Tal-y-bont yn perfformio yn goron ar y cyfan.

Diolch hefyd am y llu cyfarchion a dderbyniais.

Mawr yw fy niolch i chi i gyd.

*Yn ddiffuant
Fal Jenkins*

Dyddiadur

MEDI

- 15 Bethel** 2.30 Uno yn Horeb, Penrhyn-coch (Coda Ni)
Nasareth 11.15 Bugail
Rehoboth 11.15 Uno yn Nasareth
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 4.30 Gŵyl Gynhaef. Swper i ddilyn yn yr Ystafell Haearn
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Hwylol Weddi
Bethesda, Tynant 2 Beti Griffiths
16 Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch Gwledd o Goginio yng Nghegin Gareth Richards
18 Dawnsio Albanaidd 7.30 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach
19 Tai Chi 2 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach
20-22 Gŵyl Lenyddol R. S. Thomas yn Eglwysfach
22 Bethel 10 Uno yn Nasareth
Nasareth 10 Rhidian Griffiths
Rehoboth 11.15 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Gweddi Hwylol
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Cymun Bendigaid
24 Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn 'Casglu Enwau Lleoedd' (James January-McCann) 7.30 Llanfach
Tennis Bwrdd 7 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach
26 Tai Chi 2 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach
27 Seremoni urddo Eglwys Sant Mihangel i'r LMA 7 Eglwys Llanbadarn Fawr
Sesiwn Nos Wener (Gai Toms) 8 Y Llew Du
28 Bore Coffi Macmillan 10.30-12 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach.
29 Bethel 10 Geraint Evans
Nasareth 2 John Tudno Williams
Rehoboth 10 Elwyn Pryse
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Gŵyl y Cynhaef, gyda the i ddilyn
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Gwasanaeth Boreol

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

HYDREF

- 1 Sefydliad y Merched Taliesin** Noson yn y Wildfowler
2 Tai Chi 2 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach
6 Bethel 2 Uno yn Nasareth
Nasareth 2 Bugail
Rehoboth 2 Uno yn Nasareth
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid
7 Sefydliad y Merched Eglwysfach Noson grefftau (Juliet Regan)
8 Cymdeithas y Chworiydd Rehoboth 'Y Gymraes o Ganaan' (Eirian Jones)
10 Tai Chi 2 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach
11 Noson o hen ffilmiau o'r ardal gan y ddiweddar Gwen Davies, Dolclettwr 7 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach. Gwneir casgliad i'w rannu rhwng Eglwys Sant Mihangel ac Apêl Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020. Paned i ddilyn
12 Cwis 7.30-10 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach

Cletwr

Bob dydd Mawrth 'Clonc a Gweu' 3-5

Bob dydd Sul 'Rhedeg Cymdeithasol' 9.30-10.30



- yn bont** – rhwng yr eglwys a'r gymdeithas
- yn fan cyfarfod** – i greu, i berfformio, i wrando, i ddysgu, i rannu
- yn lle agored** – i bobl o bob oed a chefnidir a chred; cartref i'r gymuned

www.morlan.cymru

01970 617996

morlan.aber@gmail.com

morlan.cymru

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; post@morlan.cymru

Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Fal a Gwyn.
Y dylunydd oedd Ceri.
Y golygyddion ar gyfer y rhifyn nesaf fydd Catrin (catrinssj@gmail.com) a Rhian (rhian.evans@tiscali.co.uk).
Y dyddiad cau yw 4 Hydref a bydd y papur ar werth ar 11 Hydref.

Tylino Thai Trefechan

Trefechan Thai Massage

Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster

Am sesiwn, ffoniwch ni ar
07878 071367

Penblwydd Arbennig

Pob dymuniad da i chi Mrs Barbara Jenkins, Hafod Ifan ar eich pen-blwydd yn 80 oed. Gobeithio y cawsoch chi ddatliad arbennig gyda'r teulu. Roedd y gacen pen-blwydd yn werth ei gweld yn sioe Tal-y-bont, does ryfedd iddi gael y wobwr gyntaf...

Diolch

Dymuna Gaenor Hall, Minafon, Dole, ddiolch yn gynnes iawn am gyfeillgarwch ffrindiau a theulu ac am y llu o negeseuon, ymweliadau, cardiau a chyfraniadau a dderbyniwyd er cof am Eric.

Ar y Ffordd

Da iawn ti Bedwyr Siencyn ar basio dy brawf gyrru ar y cynnig cyntaf. Pwyll nawr ar y ffordd!

Eglwys St. Pedr, Bont-goch

Cafwyd noson hwyliog Caws, Gwin a Chên yn yr eglwys ar nos Wener 28 Mehefin. Diddanwyd y gynulleidfa gan Gôr Merched Bro'r Mwyn a'r grŵp 'Iwscadwli'. Y llywyd oedd Mrs Beatrice Lewis, Ponterwyd.

Golff

Llongyfarchiadau i Karen Evans, Tal-y-bont, ar ei llwyddiant yng nghystadlaeth Diwrnod y Merched a gynhaliwyd ar gwrs Borth ac Ynyslas ar 12 Awst. Sgoriodd Karen 33 pwynt mewn cystadlaeth Stableford gan ennill o ddau bwynt.

Cynhadledd

Cynhelir cynhadledd flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru eleni yn Archifau Morgannwg, Caerdydd, ar 5 Hydref 2019. Gellir lawrlwytho'r rhaglen a'r ffurflen gofrestru o'r wefan:

<https://www.cymdeithasenwaullleoedd.cymru/cynadleddau/>

Noson o Hen Ffilmiau

Nos Wener, 11 Hydref am 7 o'r gloch yn Ystafell Haeam, Eglwysfach, noson o hen ffilmiau o'r ardal gan y diweddar Gwen Davies, Dolclettwr. Paned i ddilyn. Gwneir casgliad i'w rannu rhwng Eglwys St Mihangel, Eglwysfach ac Apel Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion, 2020.

Pobl a Phethe



Cyflwynwyd Tlws Coffa Dilys Morgan gan y teulu i'r Sioe Fawr, am y darn unigol gorau o waith yn adran y Gwaith Llaw. Meirir Green o Landdewibrefi oedd yr enillydd eleni, a dyma'r tlws yn cael ei gyflwyno gan Lywydd y sioe Mrs Eleanor Thomas, Drysgolgoch, Sir Benfro, a David a Dwynwen Morgan ar ran y teulu.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i ieuencid yr ardal ar eu llwyddiannau yn eu gwahanol arholiadau ac hefyd i'r nifer fawr sydd wedi graddio o'r colegau. Pob dymuniad da i'r rhai sydd yn symud ysgol ac yn dilyn cyrsiau gwahanol mewn colegau amrywiol.

Sioe 'OLIVER'

Sawl un ohonoch chi fu'n gweld y sioe gerdd 'Oliver' yng Nghanolfan y Celfyddydau yn ystod yr haf? Yn doedd hi'n WYCH! Ac yn serennu fel un o'r prif gymeriadau oedd Sam Ebenezer, Maes-y-felin, Tal-y-bont. Clywyd Sam yn trafod ei ran yn y sioe ar y radio a'r teledu.

Yn y cast hefyd roedd Heledd a Rhodri Davies 'Gwynfryn', Tal-y-bont a Miriam Llwyd, cyn ddisgybl yn Ysgol Tal-y-bont. Da iawn chi i gyd.

Yn gwella

Braf deall fod Ceri Morgan, Tŷ Ceulan, Tal-y-bont yn gwella wedi ei damwain yn ystod yr haf.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Geraint a Jean Evans, Cwmslaid, Tal-y-bont ar ddathlu eu priodas aur.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Robert Dare a'i briod Sugiarti ar enedigaeth eu mab Steven Saverio yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth ar 1 Medi. Mae Steven yn wŷr i Mrs Joan Dare, Bwlchrosser, Bont-goch.

Hefyd i Caron Hywel a Gavin Pugh, Eddington House, Tal-y-bont ar enedigaeth eu mab bach, Evan Wyn Pugh ar 10 Mehefin.

Cyrhaeddodd mab bach ar aelwyd Cerrigtranne ar 31 Gorffennaf, Tomos Jac, ac mae mam a dad, Geraint ac Eleri Jenkins wedi gwirioni'n lân.

Draw yn Seland Newydd ganwyd merch fach, Seren Bailey Jenkins i Sion ac Anna ac wyres fach gyntaf i Christine a Paul, Bwthyn y Fron, Tal-y-bont.

Pob dymuniad da i chi i gyd deuluoedd bach.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Ann Humphreys, Llysteg, Taliesin ar ddod yn 'fam-gu arall' unwaith eto, ac i'w hwyres Caryl a'i gŵr Geraint ar enedigaeth eu trydedd merch, Gwenlli Grug, ddydd Sadwrn 24 Awst eleni, yn chwaer i Marged Lois a Megan Celyn.

**Capel Rehoboth**

Gan fod Bob Williams, Y Berllan, Pentrebach, yn dathlu pen-blwydd arbennig, penderfynodd y chwiorydd i gynnal dathliad, ar ôl y gwasanaeth ar fore Sul, Awst 18fed. Hyfryd oedd cael cwmni ein ffrindiau o Gapel Bethel, a oedd yn ychwanegu at y mwyniant. Diolch i bawb a gyfrannodd, yn enwedig Mona Rowlands, Machynlleth am y gacen pen-blwydd siocled flusus iawn.

Priodas

Llongyfarchiadau i Llŷr James a Lowri Hâf Morgan ar eu priodas yn Eglwys St. Pedr, Elerch ar Sadwrn 7 Medi, a weinyddwyd gan y Parchg Lyn Lewis Dafis. Byddant yn ymgartrefu yn Llannerchclwydau, Bont-goch.


Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â Flic Eden, Seaview Terrace, Taliesin a'r teulu ar golli partner Flic, Richard Collins, yn ystod yr haf. Cafodd Richard ei gladdu mewn llecyn sydd â golygfa hyfryd dros Ddyffryn Dyfi, y dyffryn oedd mor agos at ei galon. (Gweler y deyrnged yn y rhifyn hwn.)

LRJ

**Plymio
cyffredinol
a chynhaliaeth**

Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk



Cwpan i Ddolclettwr



Llongyfarchiadau i Bethan a Rowland Davies, Dolclettwr, perchnogion yr hesbrwn a enillodd y bencampwriaeth yn Sioe Sir Benfro.

Mudiad newydd yn cyrraedd ardal Papur Pawb

Mae grwpiau'r mudiad Yes Cymru wedi cael eu sefydlu yn Aberystwyth a Machynlleth. Does neb yn siŵr pa ochr y ffin yw Tal-y-bont, ond heb os mae Taliesin, Tre'r Ddôl ac Eglwys Fach yn dod dan Fachynlleth (tan i rywun yno sefydlu YesCymru Tal-y-bont?)

Yr unig bwrpas a pholisi Yes Cymru yw ennill annibyniaeth i Gymru. Mae aelodaeth ar agor i aelodau bob plaid a dim plaid.

Nigel Callaghan o Daliesin yw Cadeirydd grŵp Machynlleth, gyda James January-McCann o Ffwrnais yn Ysgrifennydd. Mae grŵp Machynlleth yn cwrdd yn fisol yng Nghaffi Alys, ac mae grŵp Aberystwyth yn cwrdd yn Bar 46, Heol y Bont. Ar hyn o bryd ffocws y grwpiau yw codi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch a'r dadlau dros annibyniaeth, drwy gael stondinau stryd, dosbarthu taflenni ayyb.

Mae YesCymru yn gweithio'n agos gyda AUOBCymru (All Under One Banner Cymru) a oedd yn gyfrifol am drefnu'r orymdaith yng Nghaernarfon yn ddiweddar, a ddenodd dros 8000 o bobl, ac ar 7 Medi ym Merthyr Tudful, gyda dros 5,000 yn bresennol -gan gynnwys nifer o'n hardal ni.

Am fwy o wybodaeth ewch i Trydar (@YesCymruM) neu Weplyfr (/YesMachynlleth) neu ffonio 07710 430592, e-bost yesmachynlleth@gmail.com



Ysgol Tal-y-bont



Statkraft



Ffatri fêl



Gwersyll yr Urdd Caerdydd



Diwrnod cadw'n iach



Y côr o ddisgyblion a chyn-ddisgyblion yr ysgol yn canu ar lwyfan yr Eisteddfod yn ystod y seremoni pryd y cyflwynwyd Medal Syr T H Parry-Williams i'r cyn-athrawes Mrs Falyri Jenkins. Adroddiad ar dudalen 13.

Ysgol Tal-y-bont

Gweithgareddau Diwedd Blwyddyn

Yn ystod wythnosau diwethaf Tymor yr Haf cynhaliwyd ein mabolgampau ysgol. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau dîm am eu hymdrechion arbennig yn ystod y dydd a da iawn Ceulan am ennill y darian. Llongyfarchiadau hefyd i'r unigolion ar ennill tlysau yn ystod y dydd a diolch yn fawr i'r capteiniaid am bob cymorth. Roedd hi'n brynhawn hyfryd gyda llawer iawn o rieni a ffrindiau'r ysgol yn cefnogi.

Aeth llawer o blant yr ysgol i gystadlu ym Mabolgampau'r Cylch ar gaeau ysgol Penweddig hefyd. Llongyfarchiadau mawr i chi gyda am berfformio mor wych mewn tywydd crasboeth.

Hefyd yn ystod y cyfnod yma cynhaliwyd ein barbeciw blynyddol, gyda phlant Blwyddyn 6 yn serennu wrth gynnal cyngerdd hyfryd yn neuadd yr ysgol. Diolch yn fawr i aelodau o'r Gymdeithas Rieni am yr holl waith paratoi ac i Mrs Jones y gegin a'r staff am bob cymorth ar y noson hefyd.

Yr Ysgol yn y Gymuned

Ar ddiwedd y tymor, daeth criw niferus a brwdfrydig o rieni at ei gilydd i gynnal taith beics noddedig i godi arian i'r ysgol. Diolch yn fawr i bawb wnaeth seiclo a chefnogi.

Tripiau Diwedd Tymor

Mwynhaodd pawb ein tripiau ysgol eleni eto. Aeth plant hŷn yr ysgol i weld ffilm yn Sinema Libanus a threulio prynhawn ymlaciol ym Machynlleth. Aeth plant y Cyfnod Sylfaen am fore i Bendigedig yn Y Bermo a chael picnic ar y traeth. Diolch yn fawr iawn i Gymdeithas Rieni'r ysgol am noddi'r tripiau hyn.

Aeth plant hŷn yr ysgol ar ymweliad arbennig i Wersyll yr Urdd Caerdydd hefyd. Buom yn ymweld â Stadiwm y Mileniwm, Y Cynulliad, Y MInt Brenhinol, cael teithiau ar gychod o gwmpas y Bae ac LC2. Diolch i Rhidian, Anwen Eleri a staff yr Urdd am drefnu tridiau mor gyffrous i ni.

Yn ogystal â'r tripiau hyn, trefnwyd nifer o wibdeithiau addysgol i ddyfnhau gwybodaeth am ein themâu ac o'r ardal leol. Cafodd plant cyfnod allweddol 2 groeso arbennig iawn yn fferm fêl Wainwright's. Fe wnaethom ddysgu cymaint am wenyn a'r broses o gynhyrchu mēl.

Aeth plant y cyfnod sylfaen gyfle arbennig i fynd ar daith o gwmpas Statkraft yng Nghwm Rheidol. Roedd hi'n ddiddorol iawn i glywed yr holl ffeithiau difyr. Roedd y gwaith yn rhan o brosiect y dosbarth i ddysgu mwy am gynhyrchu egni glân dan Y Cyngor Prydeing. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr i Gronfa Eleri am y nawdd i ni fedru roi'r profiadau hyn i'r plant.

Staffio

Ar ddiwedd Tymor yr Haf cawsom gyfle i ddiolch i Miss Gwenno Ellis a Miss Sarah Scollan am eu cyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Miss Ellis bellach yn gweithio yn Ysgol Felin-fach a Miss Scollan wedi dechrau ar gwr Ymarfer Dysgu. Pob hwyl i chi'ch dwy ar gyfer y dyfodol.

Pob hwyl i blant Blwyddyn 6 llynedd hefyd wrth iddyn nhw ddechrau yn yr ysgolion uwchradd a llongyfarchiadau mawr i'r cyn ddisgyblion ar lwyddo mewn gwahanol arholiadau dros yr haf. Pob hwyl i chi gyd gyda'r profiadau newydd.

Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi ennill gwobrau mewn sioeau ac eisteddfodau dros yr haf hefyd. A diolch yn fawr iawn i rieni'r ysgol am drefnu ac am stiwardio'r castell bownsio. Ychwanegiad gwerthfawr i Sioe Tal-y-bont eleni.



Trip Cyfnod Sylfaen



Castell bownsio Sioe Tal-y-bont

Pobl a Phethe

Yn yr Ysbyty

Mae Margaret Geddes, Hillside, Tal-y-bont a Wayne Aubrey, Gleanings, Tal-y-bont ill dau wedi derbyn triniaethau mewn ysbytai yn ddiweddar. Gobeithio eich bod yn gwella.

Cartref newydd

Dymunwn y gorau i Cathryn, Cynrig, Cadi Wen a Mostyn sydd wedi symud o Min y Gors, Taliesin, i dŷ y maent wedi'i godi yn y Bont-goch. Byddwn ni wir yn gweld eu heisiau yn Nhre Taliesin ond gobeithio y byddant yn hapus iawn yn eu cartref newydd.

Croeso hefyd i Margaret a Phil Kerton a'r teulu sydd newydd ddod i fyw i 1 Dôl Pistyll, Tal-y-bont.

Swydd Newydd

Pob dymuniad da i Elis Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont ar ei swydd newydd fel Rheolwr Prosiectau ar gynlluniau Rhwydwaith Rheilffordd yn Nwyrain Llundain.

Dymuniadau da

Pob dymuniad da i Martin Nelves, Dolau Gwyn, Tre'r ddôl, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, ac hefyd wedi derbyn triniaeth yno mae Bryan Jones, Penlôn, Tal-y-bont. Gobeithio eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn Bryan.

Gŵyl y Cynhaeaf

Eglwys Llangynfelyn,
Llan-fach
29 Medi, 2.15
Croeso cynnes i bawb

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â theulu Penygro, Bont-goch yn dilyn marwolaeth Mair Penri, mam Siôn, mam-yng-nghyfraith Helena, a nain Oisín Lludd a Caihomne Melangell, yn ardal Y Bala ar ddechrau mis Gorffennaf. Cyfrannodd Mair lawer i fywyd crefyddol a diwylliannol Cymru, a bydd bwlch enfawr ar ei hôl. Cofiwch hefyd am ei phriod Penri, a Llion a'r teulu yng Nghaerdydd.

Mamgu a Dadcu Bryngwyn

Llongyfarchiadau i Robat ac Enid Gruffydd, Bryngwyn, Tal-y-bont, ar ddod yn dad-cu a mam-gu i Osian, mab bach Garmon a Hannah, a brawd bach i Elliw a Lleuwen.

Croeso

Croeso mawr i Iwan a Caroline sydd newydd ymgartrefu ym Maesgwyn, Tre'r ddôl.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Bil ac Eirionedd Matcalfe, Taliesin, ar farwolaeth brawd Bil sef Dai Metcalfe ym mis Gorffennaf.

Cylch Cinio

Mae Cymdeithas *Papur Pawb* wedi derbyn cyfraniad ariannol hael gan Gylch Cinio Aberystwyth eleni eto. Mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth hon.

Eisteddfod Hwyl

Cynhelir Eisteddfod Hwyl Papurau Bro Ceredigion yn Felinfach ar 11 Hydref. Am fanylion pellach cysylltwch â'r golygydd cyffredinol.

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Daeth gweithgareddau 2018 – 19 y gangen i ben ym Mehefin gyda swper ym Medina, Aberystwyth. Bellach, diolch i'r aelodau, mae rhaglen newydd sbon yn ei lle ar gyfer 2019 – 2020 gyda nifer o weithgareddau gwahanol a difyr yn ein haros. Cofiwch ddarllen dyddiadur Papur Pawb neu gadw llygaid ar hysbysfwrdd y Neuadd Goffa i weld pryd y byddwn yn cwrdd. Mi fyddai'n braf iawn croesawu aelodau newydd i'r gangen.

Os am fwy o wybodaeth, cysyllter â Fal Jenkins, 832560 neu ar jenkinsfal@gmail.com

Dydd a Nos

Wele gychwyn ar gyfres newydd sbon yn *Papur Pawb*, sef stori dditectif gan yr awdur lleol Geraint Evans. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r papur gynnwys stori gyfres fel hon. Bydd pennod yn ymddangos bob mis o hyn tan rifyn Mehefin 2020, felly bydd deg pennod i chwi'r darllenwyr ddyfalu canlyniad. Mae *Papur Pawb* yn ddiolchgar i Geraint am lunio'r stori ac, fel rhan o'r cytundeb gydag ef, mae'r papur wedi cytuno i roi cyfraniad tuag at gronfa Eisteddfod 2020.

Pennod 1

Pinc! Dillad gwely pinc. Pwy ar y ddaear fyddai'n dewis dillad gwely pinc? Mor ddi-chwaeth. Pathetig, dyna'r gair i ddisgrifio'r domen o gynfasau a gobennydd brwnt ac mewn gwirionedd yr unig air i ddisgrifio'r holl olygfa. Y llun o hen abaty, y groes wellt wedi'i glynu wrth un o byst y gwely a'r Beibl o fewn gafael. Yna'r drewdod, drewdod hen ŵr yn gorwedd mewn pwll o anobaith, diflastod a hunan-dosturi. Oce, 'doedd e ddim yn hen, yn rili hen ond roedd e yn sicr wedi byw yn rhy hir, wedi goroesi ei bwrpas ac roedd yn amser iddo farw.

"Faint o'r gloch yw hi?"

"Hanner awr wedi deuddeg."

"Mor hwyr â hynny, hen bryd i fi godi."

"Chi'n gwybod yn iawn fod y doctor wedi dweud fod rhaid i chi orffwys. Dyna'r ffordd i wella, gorffwys a digon o gwsg."

"Doctor? Dwi ddim yn cofio i fi weld y doctor. Dod yma i'r tŷ? Rhyfedd, doctoriaid byth yn dod allan i weld neb erbyn hyn. Pawb yn mynd i'r syrjeri. Buodd e yma, siŵr iawn?"

"Hollol siŵr, bore ddoe. Archwiliad llawn, tabledi cryfach a chadw at y gwely. Dyna'r cyngor a rhaid gwranddo."

"Dyn neu ddynes? Gas gen i ferched yn ddoctoriaid. Gwybod y cyfan a pwnio chi fan hyn a fan draw, ystyried dim am y claf."

"Dynes ac roedd hi'n eithriadol o garedig. Treulio yn agos at awr yn holi a dweud y dyle chi fod yn ofalus o'r clwy ar y pen. Gosod yr eli'n rheolaidd, gafael yn y peth agosa os fyddwch chi teimlo'n bendrwm neu wrth gwrs galw arna i."

"Clwy, pa glwyf?"

"Wnaethoch chi godi yn y nos, syrthio yn y bathrwm a taro'ch pen. Rhy stwbwrn i ofyn am help. Chi'n darllen y Beibl byth a hefyd, beth am yr adnod 'Gofynnwch ac fe roddir i chwi.' Wel, dwi yma i roi ac i helpu."

"Ie, adnod dda. Dysgu adnodau ar yr aelwyd, dysgu ac wedyn adrodd o flaen yr offeiriad. Dysgu a byth anghofio. Row os fydd chi'n anghofio. Faint o'r gloch yw hi?"

"Hanner awr wedi dau."

"Amhosib, mae'r 'stafell yn dywyll, yn fwy tebyg i ganol nos. Mae rhywun yn drysu yn tŷ 'ma, chi neu fi. Dewch, atebwch!"

"Does neb yn drysu. Cyngor y doctor unwaith eto. Cadw'r llenni ar gau i leihau'r siawns o migraine. Chi'n cofio gwingo mewn poen a chilio rhag unrhyw olau llachar?"

"Dwi yn cofio'r migraine, poen uffernol...Druan â fi, llipryn o ddyn, pen tost, esgyrn tost, methu hyd yn oed fynd i'r tŷ bach heb

help. Byw o ddydd i ddydd mewn sefyllfa ryfedd, yn gwbl ddibynol ar eraill. Beth sy wedi digwydd a'r cyfan mewn mater o fisoedd? Yn gynharach eleni hollol abl i edrych ar ôl fy hun, gwneud pob peth. Darlithio, sgwennu, pwyllgora, cymdeithasu. A nawr dim, gwerth dim i neb."

"Anghywir, chi'n werth y byd i fi. Ni'n dau, jest ni'n dau, edrych ar ôl ein gilydd - cynnal ein gilydd."

"Ie cynnal, cynnal i godi, cynnal i gerdded, cynnal i fwyta. Beth bynnag diolch am ddweud. Wnei di...wnei di orwedd gyda fi am funud ac efallai..."

Syllodd ar y corff gwantan a ffeiddio fod y reddf a'r awch am ennyd o bleser cnawdol yn dal yno. A allai orwedd ar y gwely, nesáu at yr arogleuon? Ych-a -fi. Gwnaeth sawl tro ond dim pellach. "Na gwell peidio. Doctor wedi dweud am beryglon cynhyrfu. A beth bynnag mae'n amser cymryd y tabledi. Eistedd i fyny, wnâi estyn am y dŵr."

"Na! Dŵr yn blasu'n od a'r tabledi'n cael effaith ryfedd. Gweld morgrug yn cropian drosta i a goleuadau llachar. Dihuno mewn boddfa o chwys oer."

"Chi sy'n dychmygu, breuddwyd gas. Dewch nawr, dwy dabled a fe gewch chi gysgu. Gwranddo ar y doctor."

"Anghofio am y doctor, twll tin y doctor. Yn lle'r dŵr a'r tabledi, moddion go iawn plis, dropyn o wisgi. Oes 'na ddiferyn ar ôl?"

"Os chi'n mynnu ac oes mae 'na ychydig ar waelod y botel."

"Ychydig! Ni wedi bod wrthi'n selog yn codi'r bys bach."

"Ni! Chi sy wedi slotian y cyfan bron mewn llai na wythnos."

"Os wyt ti'n dweud. Rhaid cael mwy, potel arall, single malt." Arllwysodd fesur hael, mesur llawer llai i'w hun a phasio'r gwydr.

"Glenmorangie, y gorau oll. Blas ychydig yn wahanol heddiw, cryfach os rywbeth. Dropyn arall?"

Ufuddhaodd a chilwenu ar y drachtio tra'n paratoi ei hun yn feddyliol a chorfforol. Mewn llai na dwy funud roedd y diawl yn cysgu'n drwm, ei frest yn codi a disgyn wrth iddo chwyrnu fel corws o foch. Roedd ei geg ar agor a rhimyn o fflem seimllyd yn llifo at ei ên. Gwyliodd erchylltra'r olygfa, gwneud y penderfyniad di-droi-nôl a chodi'r glustog o'r gadair wrth ymyl y gwely. Gyda'i holl nerth gwasgodd y glustog dros yr wyneb a'i ddal yn gadarn. Teimlodd y pen yn troi'n wyllt o un ochr i'r llall a synnodd er y salwch a'r gwendid fod y diawl yn dal yn gryf. Am eiliad fe lwyddodd i daflu'r glustog o'r neilltu a gweiddi nerth ei ben. Na, nid gwaedd chwaith ond crafad anifeilaidd yn ymbil am help. Gallai weiddi faint a fynno, neb i glywed a'r cymdogion agosaf led cae i ffwrdd. Grymuswyd y gafael ac o dipyn i beth arafodd y brwydro hyd nes i'r corff lonyddu.

Dyna beth oedd e nawr, corff, sypyn o esgyrn ac organau wedi derbyn ei haeddiant. Sychodd y chwys, codi'r glustog a rhythu ar y wefus las a'r llygaidd pwl a edrychai'n gyhuddol ar yr olygfa fel petaent yn gofyn 'sut alle ti wneud, ti o bawb?' Wfftiodd ac mewn gweithred olaf o gynddaredd a dial poerodd ar y wyneb gwelw.

© hawlfraint: Geraint Evans

Pwy yw'r llofrudd? Mynnwch gopi o'r rhifyn nesaf i ddarganfod mwy.

Tensiwn ar bob tudalen!

Nofelau ditectif
GERAINT EVANS

y **olfa.com**
Llyfrau dros Gymru



Buddugwyr Lleol Sioe Tal-y-bont

Cynhaliwyd Sioe ragorol unwaith eto eleni ar ddydd Sadwrn gŵyl y banc mis Awst.

Roedd y tywydd yn ffafriol er bod rhai yn cwyno ei bod yn rhy boeth erbyn y prynhawn.

Daeth nifer boddhaol o ymwelwyr drwy'r gatiau ac roedd llawer o stondinau a digwyddiadau difyr i'w diddanu.

Llywydd y Sioe eleni oedd Mr Ieuan Morgan, Rhos, a gafodd gymorth parod ei chwaer Gwen.

Llongyfarchiadau mawr i'r pwyllgor, i'r llywyddion ac i'r holl wirfoddolwyr am gynnal sioe mor hwyliog a threfnus, sy'n denu cystadleuwyr ac ymwelwyr o bell ac agos.

Ymlaen yn awr i 2020.

GWREIDDIAU A GRONYNNAU

Belen o Wair Hadau

1. Ynyr Siencyn, Tanrallt
2. Bedwyr Siencyn, Tanrallt

CYNNYRCH GARDD

- 3 Winwnsyn (Hadau)
- 1 a 2. Anthony Holt, Glasgoed, Tal-y-bont

3 Winwnsyn (Set)

1. Anthony Holt

Casgliad o bum winwnsyn

1. Anthony Holt

Llysieuyn di-siâp

1. Claire Fowler, Bronygan, Tal-y-bont

4 Taten Wen

1. Alaw Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont
2. Tony Allenby, 15 Dôl Pistyll, Tal-y-bont

3 Betys Crwn

1. Tony Allenby

4 Coden Bys

- 1 a 2. Elfed Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont

1 Sydyn o Domatos

1. Claire Fowler
2. David Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont

2 Faro sy'n llai na 12 modfedd o hyd

2. David Jones

2 Ciwcymbr

2. Marc Richards, Rhiwlan, Tal-y-bont
3. Nia Richards, Rhiwlan, Tal-y-bont

6 Tomato Ceirios

- 1 a 2. Sarah Reisz, Bryngryffty, Tal-y-bont

3 Tony Allenby

4 Ffa Ffrengig

1. John Foster, Bristol House, Tal-y-bont

2. Tony Allenby

4 Coden o Ffa

- 1 a 2. David Jones

3 Coesyn Riwbob

3. Marc Richards

LLEOL

3 Corbwmpen

- 1 a 2. Sarah Reisz
3. Elfed Jones

4 Taten

1. Tomos Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont
2. Lynwen Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont

3 Coesyn Riwbob

1. Anthony Holt
- 2 a 3. Elfed Jones

4 Ffa Dringo

- 1 a 2. David Jones
3. Daniel Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont

Casgliad o lysiau ar hambwrdd

- 1 a CHWPAN. Claire Fowler
2. Sarah Reisz
3. John Foster

RHOSGLWM: Anthony Holt

FFRWYTHAU

3 Afal Bwyta

- 1, 2 a CHWPAN am yr arddangosfa orau. Mai Leeding, Glannant, Taliesin

3 Cath Lloyd-Williams

3. Cath Lloyd-Williams
1. Cath Lloyd-Williams
2. Anthony Holt, Glasgoed, Tal-y-bont

3 Marc Richards

3 Peren Fwyta

- 1 a 3. Marc Richards
2. Nia Richards

3 Peren Goginio

- 1 a 2. David Jones, Berthlwyd
3. Mai Leeding

3 Eirinen

1. Mai Leeding
2. Sarah Reisz
3. Marc Richards

6 Eirinen Ddu

- 1 a 2. Sarah Reisz

CWPAN: nifer uchaf o bwyntiau – Mai Leeding

BLODAU

6 Pysen Bêr

1. Sarah Reisz

Suddlon mewn Pot

1. Sarah Reisz

Planhigyn Dail y Tŷ mewn Pot

- 2 a 3. Sarah Reisz

Planhigyn Tŷ yn ei Flodau mewn Pot

- 2 a 3. Sarah Reisz

Gardd Fach ar Blât - Plant o dan 14 mlwydd oed

- 1 a CHWPAN. Cadi Wen
- Lloyd-Williams, Neuadd Bryn Glas, Bontgoch

2. Carys Joseph, Yr Hen Ysgol, Tal-y-bont

3. Elen Lloyd-Williams, Moelgolomen, Tal-y-bont

Casgliad o Flodau Gwyllt. Plant dan 14 mlwydd oed

1. Cai Lloyd-Williams, Moelgolomen, Tal-y-bont
2. Alaw Morgan
3. Daniel Morgan


Tusw Ysgwydd Gorau

3. Christine Gilbert, Sŵn y Nant, Tre'r-ddôl

Basged grog yn ei blodau

- 1 a CHWPAN. Jane Pugh, Glanrhyd, Tre'r Ddôl

CWPAN: pwyntiau uchaf (Lleol) – Sarah Reisz



Eifion Jenkins, Cerrigcaranau, a'i fiwch Holstein fuddugol

Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

GOSOD BLODAU**Blas ar Fyw – Addurn Bwrdd**

1 a CHWPAN. Christine Gilbert

Chwilotwr glan môr (miniatur)

1 a CHWPAN. Christine Gilbert

Pa mor wyrdd yw fy Mlodau

1. Christine Gilbert

Gwirioneddol Wledig

2. Christine Gilbert

‘Disgwyl’ – trefniant dan amodau

1 a CHWPAN. Helen Jones,

Gellimanwydd, Tal-y-bont

3. Jenny Fothergill, Minafon,

Tal-y-bont

3. Claire Fowler

CACENNAU WEDI’U**HADDURNO****4 Cacen Gwpan wedi’u haddurno**

3. Lisa McGuff, Glan Ystwyth, Tre’r

Ddôl

COGINIO**Cacen Ffrwythau**

1. Janet Jones, Llwynglas, Tal-y-bont

2. Nia Richards

Cacen Lemwn

2. Janet Jones

3. Janet Evans, Cefngweiriog, Tre’r

Ddôl

Sbwng Siocled

2. Ceri Jones, Awel y Gors,

Tal-y-bont

3. Janet Evans

Bara Brith – heb furum

1. Mai Leeding

2. Janet Evans

Torth Cartref – Tin Hirsgwar

1. Mick Fothergill, Minafon,

Tal-y-bont

3. Elfed Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont

Torth o fara surdoes

1. Helen Jones, Gellimanwydd,

Tal-y-bont

4 Sgon

3. Marc Richards

6 Pice ar y Maen

1. Nia Richards

2. Mari Evans, Glanaber, Tal-y-bont

3. Marc Richards

Cacen gaws – heb ei chogino

1. Lisa McGuff

3. Marc Richards

4 Myffin Sawrus

1. Jane Bailey, Troedrhwi Seiri,

Bontgoch

2. Janet Owen, Rhoslan, Tal-y-bont

Coron o Sgons Ffrwythau

2. Marc Richards

Fy Hoff Gacen gyda’r Rysait

2. Ceri Jones

3. Elen Ifan, Is-y-Coed, Tal-y-bont

Fflan Sawrus

2. Frances Foster, Bristol House,

Tal-y-bont

Tarten Ffrwythau**4 Fflapjac**

1. Ceri Jones

3. Janet Owen

Pei meringue lemwn

1. Janet Evans

3. L. Lionel, 1, Wesley Terrace,

Taliesin

Coron o Sgons Ffrwythau (i**wrywod)**

2. Anthony Holt

3. Mick Fothergill

MARCIAU UCHAF YN YR**ADRAN I WRYWOD: Marc****Richards****CYFFEITHIAU****Jar o Jam Ffrwythau Meddal**

3. Nia Richards

Jar o Jeli Ffrwythau

3. Anthony Holt

Jar o Geuled Lemwn

2. Janet Jones

Jar o Siytni Bety

1. Janet Jones

Jar o Siytni Ffa Dringo

1. Janet Jones

Jar o Siytni arall

1 a 2. Janet Jones

Jar o Gyffraith Anarferol

1. Janet Jones

Tri Cyffraith i’w Cyflwyno’n**Anrheg**

1. Jane Bailey

Dysgl Fach o Golslo

2. Efa Saunders-Jones,

Penrhwyngwyn, Tre’r Ddôl

3. Lois Jones, Gellimanwydd,

Tal-y-bont

Dysgl Fach o Paté

1. Efa Saunders-Jones

Potel o Gordial

2. Nia Richards

3. Jill South, Glyn Helyg, Taliesin

Potel o Win Coch Sych

3. Anthony Holt

4 eitem coginio neu gyffeithiau yn**defnyddio mefus**

1 a THLWS. Jane Bailey

CYNNYRCH LLAETHDY**4 wy Iâr – Brown**

3. Alaw Morgan

4 wy Hwyaen

3. Joanna Saum, Cysgod y Foel,

Eglwysfach

MÊL**Eitem gosmetig yn cynnwys mêl****a/neu gŵyr gwenyn**

3. Elen Ifan, Is-y-Coed, Tal-y-bont

Crib o Fêl Bas sy’n addas i’w**dynnu allan**

2. Ann Ovens, Tan-y-cae, Tal-y-bont

3. Helen Ovens, Crud yr Awel,

Taliesin

GWAITH LLAW**Sampler**

2. Betty Jenkins, Pengwern,

Tal-y-bont

Unrhyw Eitem mewn Pwyth Croes

3. Margaret Jenkins, Nantgaredig,

Tal-y-bont

Clustog

1 a 2. Betty Jenkins

Unrhyw Eitem wedi ei Grosio

3. Catrin Saunders-Jones,

Penrhwyngwyn, Tre’r Ddôl

Unrhyw Eitem mewn Gwaith**Cynfas**

1 a 2. Betty Jenkins

Bag – unrhyw gyfrwng

1. Claire Fowler

3. Jenny Fothergill

Cerdyn Cyfarch

3. Betty Jenkins

ARDDANGOSFA ORAU: Betty**Jenkins****MARCIAU UCHAF YN YR****ADRAN: Betty Jenkins****CREFFT****Eitem o Waith Coed**

2. Simon Lloyd-Williams,

Moelgolomen, Tal-y-bont

3. Liam Maguire, Barynys,

Tal-y-bont

Unrhyw eitem yn defnyddio broc**môr**

1. Mick Fothergill

Paentiad – unrhyw gyfrwng

3. Cath Maguire, Barynys,

Tal-y-bont

Paentiad – unrhyw gyfrwng**(Lleol)**

1. Cath Maguire

2. Mick Fothergill

3. S. Haynes, Tŷ Cefn, Tal-y-bont

FFOTOGRAFFIAETH**Gŵyl**

1 a 3. Neil McGuff, Glan Ystwyth,

Tre’r Ddôl

Hedfan fry uwchben

1. Patrick Lavery, Heulwen Hâf,

Tal-y-bont

2 a 3. Neil McGuff

Llun doniol o’r teulu

3. Catrin MS Davies, Simne Wen,

Tal-y-bont

Amser chwarae

Rhodri Lloyd-Williams,

Moelgolomen, Tal-y-bont

Anifeiliaid

1. Neil McGuff

2. Craig Swanson, 10 Dôl Pistyll,

Tal-y-bont

3. Andrew Morel, Llawryglyn,

Bontgoch

Adlewyrchiad

1. Craig Swanson

2. Siona Lavery, Heulwen Hâf,

Tal-y-bont

3. Neil McGuff

CWPAN ARDDANGOSFA**ORAU: Patrick Lavery****PLANT YSGOL GYNRADD****TAL-Y-BONT****Dosbarth Meithrin: Anifeiliaid****Fferm**

1 a THLWS. Melys

2. Alba

3. Ela L

Dosbarth Derbyn: Y Byd o’n**Cwmpas**

1 a THLWS. Cadi Lloyd-Williams

2. Isla Haddon

3. Caio Lewis

Blwyddyn 1 a 2: Y Byd o’n**Cwmpas**

1 a THLWS. Tomos Breeze

2. Minnie Evans

3. Blythe Hiscox

Blynyddoedd 3 a 4: Trychfil

1 a THLWS. Ela Jones

2. Summer McNulty

3. Jayden Hopkins

Blynyddoedd 5 a 6: Chwaraeon

1 a THLWS. Ava

2. Celsea

3. Ryan



Cath Lloyd-Williams, gyda'r afalau coginio a ddaeth â'r wobwr gyntaf iddi



Y llywydd yn cyflwyno cwpan i Mai Leeding am ei llwyddiant yn yr adran ffrwythau

PLANT YSGOL GYNRADD - AGORED**Dosbarth Meithrin: Paentiad o lan y môr**

- 1 a THLWS. Gruffudd Jones
2. Elinor Jenkins
3. Elsi Iago

Dosbarth Derbyn: Paentiad o ddeinosor

- 1 a THLWS. Ieuan Evans
2. Osian Jones
3. Cai Lloyd-Williams

Blwyddyn 1 a 2: Carreg wedi'u haddurno

- 1 a THLWS. Moi Schiavone
- 2 a 3. Tomos Breeze

Blynyddoedd 3 a 4: Anifail fferm allan o lego

- 1, 2 a THLWS. Osian M. Lewis
3. Hedydd Beechey

Blynyddoedd 5 a 6: Cerbyd wedi'i wneud allan o lysiau

- 1 a THLWS. Elen Lloyd-Williams
2. Llew Schiavone
3. Alys Jones

PLANT YSGOL UWCHRADD 4 myffin

- 1 a 3. Efa Saunders-Jones

4 browni

1. Efa Saunders-Jones

Llawysgrifen – eich hoff bennill

1. Ffion Hicks, Tŷ Coch, Llancynfelyn

Tynnu llun 5 eitem yn dechrau gyda 'M'

1. Ffion Hicks
2. Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll, Tal-y-bont

Bocs adar neu westy pryfed

1. Carys Joseph

Eitem wedi ei gwneud yn yr ysgol

- 1 a 3. Ffion Hicks

ARDDANGOSFA ORAU: Efa**Saunders-Jones****MARCIAU UCHAF YN YR****ADRAN: Ffion Hicks****Ceffylau****Caseg Hesb neu Geffyl 4 mlwydd oed neu hyn**

Megan Williams, Taliesin

Ceffyl Merlota Gorau dros**138cm i'w farchogaeth (Agored)**

1. Megan Williams
2. Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll



Nia Richards, Rhiwlan, gyda'i picie ar y mân

Dosbarth Lleol – Cwpan: Megan Williams**Caseg neu Geffyl Hela dros 158cm i'w ddangos dan gyfrwy.**

1. Becca Fflur
2. Megan William Cilwobr – Becca Fflur

Ceffyl Marchogaeth Gorau - i'w farchogaeth:

1. Megan Williams Cilwobr Megan Williams

Cystadleuaeth Gwisg Ffansi:

2. Mathew Jones, Llwynnadda
3. Becca Fflur

Caseg neu Geffyl 4 mlwydd oed neu'n hyn i'w farchogaeth:

1. Megan Williams

Cwpan Ceffylau Lliw a**Palomino:**

Megan Williams

Y Gaseg neu'r Ceffyl gorau**unrhyw uchder - i'w farchogaeth:**

1. Megan Williams

Cwpan Rhan Frid Cymreig:

Megan Williams

Dosbarth Lleol – yn gyfyngedig**i'r rhai hynny sy'n byw o fewn****radiws o 5 milltir i Dal-y-bont:**

3. Becca Fflur

Gwartheg**Holstein****Heffer dan 12 mis oed:**

- 1 ac 2 Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
3. Gerald a Rhian Watkin, Henllys

Heffer gyflo:

1. Teulu Jenkins
3. Gerald a Rhian Watkin

Buwch gyflo sych:

1. Teulu Jenkins
2. Gerald a Rhian Watkin

Heffer sy'n llaetha:

1. Teulu Jenkins

Buwch sy'n llaetha:

- 1 a 2 Teulu Jenkins

Pâr:

1. Teulu Jenkins
2. Gerald a Rhian Watkin

Pencampwr a Chilwobr:

Teulu Jenkins

Da Duon**Llo tarw a aned rhwng 1.1.2018****a 31.12.2018:**

2. Teulu Jenkins

Buwch sydd yn llaetha:

1. Teulu Jenkins

Heffer sydd yn llaetha:

1. Trefor Jones, Cwmcae

Heffer a aned rhwng 1.1.2017 a**28.2.2018:**

Huw Jones, Llety Cynnes

4. Elen Jenkins, Neuadd yr Ynys**Heffer a aned ar ôl 1.3.2018:**

- 1 a 2 Teulu Jenkins

5. Trefor Jones**Llo a aned yn 2019:**

Teulu Jenkins

Pâr:

3. Teulu Jenkins

Rhosglwm Cilwobr i'r Fenyw orau

Teulu Jenkins

Buwch a Llo mewn Lloc:

- 2 a 3. Dewi Jenkins, Tynygraig

Cystadleuaeth Tywysydd Ifanc dan 12 oed:

1. Carys Watkin, Henllys

Pencampwr y Sioe:

Teulu Jenkins

Defaid Mynydd Cymreig**Hwrdd 2 flwydd oed ac yn hyn:**

1. Teulu Tynygraig
3. Teulu Tanrallt

Hwrdd Blwydd:

- 1, 2 a 3 Teulu Tynygraig

Oen Hwrdd:

2. Teulu Tynygraig

Dafad 2 flwydd oed ac yn hyn:

1. Teulu Tynygraig
3. Dyfed Evans, Glanrafon

Dafad Flwydd:

- 1 a 2 Teulu Tanrallt

3. Teulu Tynygraig

Oen Benyw:

- 1 a 3 Teulu Tanrallt

2. Teulu Tynygraig

Grwp:

Teulu Tynygraig

Pâr o Hyrddod:

1. Teulu Tynygraig
3. David Nutting, Tŷ Hen Henllys

Cwpan y Pencampwr:

Teulu Tynygraig, Cilwobr Teulu Tanrallt

Cwpan yr Hwrdd Gorau:

Teulu Tynygraig

Cilwobr yr Oen Hwrdd Gorau**cyfyngedig i arddangoswyr o****Ogledd Ceredigion:**

Teulu Tynygraig

Cwpan am y Pâr Gorau o**Hyrddod:**

Teulu Tynygraig

Unrhyw Frid Mynydd Arall**Oen Hwrdd:**

3. Teulu Alltgoch

Dafad:

1. Teulu Evans, Tanllan

Oen Benyw:

3. Teulu Evans, Tanllan

Defaid Jacob**Oen Hwrdd:**

3. Huw Davies, Llety Ifan Hen

Dafad:

3. Emyr Davies, Llety Ifan Hen

CYSTADLEUAETH!

Am gyfle i ennill CD newydd sbon y **Welsh Whisperer** 'Cadw'r Slac yn Dynn' atebwch y cwestiwn heriol yma:

Pa liw ydy cortyn bêl y Welsh Whisperer?

Gyrrwch atebion a'ch cyfeiriad i WelshWhisperer@live.com neu Swyddfa'r Gogledd, 4 Pantglas, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3BG

**Defaid Charollais****Hwrdd:**

1. Teulu Awel y Gors

Oen Hwrdd:

2. Teulu Awel y Gors

Dafad:

3. Teulu Awel y Gors

Oen Benyw:

2. Teulu Awel y Gors

Cilwobr:

Teulu Awel y Gors

Defaid Texel**Hwrdd:**

- 1 a 3. Teulu Alltgoch

2. Ffion Jones, Berthlwyd

Oen Hwrdd:

1. Teulu Alltgoch

Dafad 2 flwydd oed ac yn hyn:

1. Teulu Alltgoch

Dafad flwydd:

1. Teulu Alltgoch

Oen Benyw:

1. Teulu Alltgoch

Grwp:

Teulu Alltgoch

Pencampwr a Chilwobr:

Teulu Alltgoch

Defaid Dorset**Hwrdd:**

1. Griffiths a Davies, Dolclettwr, Taliesin

Oen Hwrdd:

2. Griffiths a Davies

Dafad Oedranus:

- 1 a 2. Griffiths a Davies

Dafad Flwydd:

3. Griffiths a Davies

Oen Benyw:

- 2 a 3. . Griffiths a Davies

Oen Benyw (heb ei thocio):

Griffiths a Davies

Cwpan y Pencampwr:

Griffiths a Davies

Defaid Zwartbles**Hwrdd:**


1. Susan Rowlands, Erglodd, Taliesin

Dafad:

2. Susan Rowlands

Defaid Beltex**Dafad Flwydd:**

2. Teulu Tanllan



Defaid Bridiau Pur Eraill**Oen Hwrdd:**

2. Teulu Tanllan

Oen Benyw:

3. Teulu Tanllan

Bridiau Prin a Lleiafrif**Oen Hwrdd:**

2. Trefor Jones, Cwmcae

3. Teulu Tanllan

Dafad:

2. Teulu Tanllan

Dafad Flwydd:

1. Teulu Tanllan

2. Trefor Jones

Oen Benyw:

1. Teulu Tanllan

2. Trefor Jones

Cilwobr:

Teulu Tanllan

Wyn Tewion**Dan 32Kg:**

1. Teulu Tanllan

2. Teulu Alltgoch

3. Emyr Davies, Llety Ifan Hen

Dros 32Kg:

1. Teulu Alltgoch

3. Emyr Davies

Wyn Mynydd:

1. Emyr Davies

2 a 3. Teulu Alltgoch

Pencampwr:

Teulu Alltgoch Cilwobr: Teulu Tanllan

Cneifio**Peiriant Agored:**

1. Gwion Evans, Tanllan

3. Rhyddian Evans, Tynant

Cwpan:

Gwion Evans

C.FEI:

1. Gwion Evans

2. Dewi Jenkins

3. Bedwyr Siencyn

Cwpan:

Gwion Evans

Peiriant dan 18 oed:

1. Bedwyr Siencyn

Cwpan:

Bedwyr Siencyn

Cystadleuaeth Tywysydd Ifanc (Defaid)**Dan 12 oed:**

Hari Williams, Môrawel,

Tal-y-bont

Ieir**Unrhyw un o'r dosbarthiadau uchod, yn agored i blant 15oed ac iau:**

3. Becca Fflur

Hwyaid**Brid Trwm Hwyaaden:**

1. Jamie Saum, Cysgod y Foel,

Eglwysfach

Brid Ysgafn Meilart:

1. John a Lowri, 12, Dôl Pistyll

Brid Ysgafn Hwyaaden:

3. John a Lowri, 12, Dôl Pistyll

Miniatur Meilart: John a Lowri

2. Jeremy Cartwright, Dan y Coed

Miniatur Hwyaaden:

1. Jeremy Cartwright

Plant dan 15 oed:

1 a 2. Leah Cartwright, Dan y

Coed, Taliesin

3. Becca Fflur

Pencampwr a Chilwobr Hwyaide:

John a Lowri

Pencampwr a Chilwobr Hwyaide**- Plant:**

Leah Cartwright

Cŵn**Ci neu Ast 6 – 12 mis oed:**

1. Ewan Wells, 2 Stryd Birkenhead

Ci neu Ast Ddefaid yn gweithio:

2. Chris Williams, Maesmeillion

Ci neu Ast dros 12 modfedd:

1. Ewan Wells

Mwngrel neu frid X gorau:

2. Ewan Wells

Cynffon yn siglo:

1. Marie Williams Jones,

Maesmeillion

3. Aisha Aroussi, Tŷ Hen Henllys

Cletwr

Mae'r gwyliau haf wedi dod i ben - diolch byth. Mae hi wedi bod yn amlwg i unrhyw un sydd wedi galw i mewn dros y ddau fis diwethaf bod Cletwr erbyn hyn yn le poblogaidd iawn gyda theithwyr ag ymwelwyr - a'r trigolion lleol wrth gwrs. Maes parcio yn llawn, pob bwrdd yn llawn, pob record wedi'u torri - ond mae pawb rhywsut yn dal i fod yn iach. Rhaid diolch o galon i'r staff a gwirfoddolwyr oll am eu hymdrechion.

Ond mae'n amser i edrych nawr at y dyfodol - mae'r stoc wedi'i archebu ar gyfer y Nadolig, ac mae'r rhaglen o ddigwyddiadau yn llawn. Ewch i Weplyfr neu'r wefan am fanylion. Bydd y gig gyntaf y tymor ar 21 Medi, pan ddaw 'Alaw', grŵp "fusion folk", i'n diddanu. Fe fydd bar ar gael.

Rydyn ni'n hefyd yn brysur siarad â phobl a grwpiau eraill am ein gwaith. Bu Rhiannon Holland o 'S4C Dysgu Cymraeg' yma ym mis Gorffennaf i recordio cyfweiliadau gyda nifer o bobl am hanes y fenter er mwyn creu fideo byr sydd bellach ar gael ar-lein. Nes ymlaen ym mis Medi byddem yn croesawu'r Prifathro Yasuyuki Komaki o Brifysgol Osaka yn Siapan, sy'n gwneud ymchwil ar fusnesau cymunedol.

Efallai, wrth basio'r adeilad, rydych chi wedi gweld ein caban newydd yn yr ardd tu cefn i'r siop - man cyfarfod ychwanegol gan fod y caff i'r Cwtch mor brysur. Dylai fod ar gael i bobl ei ddefnyddio fel man tawel i weithio, neu ei fwcio ar gyfer cyfarfodydd preifat o fewn ychydig wythnosau. Diolch yn fawr iawn i Rod am ei waith arni, ac ar y Storfa.

Mae mis Medi yn dod ag arddangosfeydd celf newydd yn Cletwr. Bydd Gordon Miles, sy'n byw yn Abercegir, yn dangos ei gyfres o baentiadau dyfrlliw cywain o eglwysi a mynachlogydd Bucovina yn Rwmania. Gweithiodd Gordon mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Myosotis i gynhyrchu paentiadau o safleoedd treftadaeth y byd UNESCO. Bydd y lithograffau argraffiad cyfyngedig yn codi arian i fynd tuag at adeiladu ysgol a chartref i blant ac oedolion ifanc yn Rwmania. Mae paentiadau a ffotograffau medrus Gordon yn adnabyddus ac yn 2015 enillodd y wobwr gyntaf yng Nghystadleuaeth Celf Agored y Tabernacl.

Bydd cwiltiau Karen Cocksedge ar waliau'r caff am y tri mis nesaf. Mae Karen, sy'n byw yn Llanrhystud, wedi bod yn gwnïo o oedran ifanc. Mae hi bellach yn gwneud cwiltiau pwrpasol ar drefn i bobl ledled y byd. Yn 2018 gofynnodd yr artist Sean Edwards iddi gwltio dau o'i ddyluniadau i'w defnyddio fel rhan o'i arddangosfa yn arddangosfa ryngwladol Biennale Fenis.

Ydy hyn yn amser da i chi feddwl am ymuno â thîm gwirfoddolwyr Cletwr? Mae rhywbeth at ddant pawb - naill ai garddio, gweithio yn y siop a chaffi neu bobi ein cacennau blasus! Dim angen unrhyw brofiad o'r blaen, ac mae'n gyfle gwyh i gwrdd â phobl - gwell na gwyllo 'Loose Women'! Dewch i mewn am ddishgled a sgwrs pan mae'n gyfleus.

Dyna bopeth am y mis 'ma - cofiwch, mae croeso i bawb yn Cletwr, ac fe fydd dishgled cynnes ar gael pob diwrnod tan 5 - ac mae'r brecwastau ar gael tan 3 y.p. eto!

Nigel Callaghan

**Bydd canlyniadau Sioe
Llangynfelyn yn ymddangos yn y
rhifyn nesaf.**



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA

E alun.davies142@btinternet.com

Nos Sadwrn 21 Medi 19.30 - 21.30

Asiad o gerddoriaeth
werin Gymreig
o safon fyd-eang.

ALAW
Cyngerdd Byw

Nifer cyfyngedig o docynnau ar
gael ymlaen llaw gan Cletwr neu
ar-lein yn Tocyn.
£9.00 i oedolion,
£20 am deulu,
£11.50 Teulu un-Rhiant.

Cletwr

Cletwr, Tre'r Ddôl, Ceredigion. SY20 8PN
www.cletwr.com 01970 832113



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Cinio Cawl

Yn dilyn Gwasanaeth Teulu ar y thema 'Madagascar' fore Sul, 22 Mehefin croesodd y gynulleidfa'r ffordd ac i mewn i'r Neuadd Goffa i fwynhau cinio wedi'i baratoi gan aelodau a ffrindiau Bethel.

Roedd dewis helaeth o gawl ar gael yno – digon i blesio pawb gyda chwpaned a chacennau i ddilyn. Yn ystod y cinio fe lansiwyd llyfr rysetiau Capel Bethel Tal-y-bont yn swyddogol.

Soniwyd eisoes yn y rhifyn diwethaf o Bapur Pawb am ymateb Bethel i ymgyrch 2018-19 Undeb yr Annibynwyr 'Bywyd i Bawb' ac fe aeth £580 o elw'r Cinio Cawl at yr apêl honno. Diolch o galon i bawb fu wrthi'n coginio ac yn trefnu ac am y rhoddion ariannol hael iawn.

GWASANAETH GARDIO MYNACH

Torri Porfa, Sietynau,
Tirlinio a Chwynu
Dal Gwaddod
Gwasanaeth cyfeillgar a
phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
01974 261758
07792457816

mynachgarden@yahoo.com

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Dathlu Cymuned

"Dathlu Cymuned" yw'r prosiect treftadaeth lleol sydd wedi'i leoli yn Cletwr. "Y Storifa" - Llecyn Straeon yw'r strwythur a adeiladwyd yn ddiweddar y tu allan i Cletwr. I ddechrau, bydd posteri dros dro arno, gan gynnwys detholiad o ffotograffau sy'n dangos agweddau ar dreftadaeth naturiol ac adeiledig ein hardal. Yn gynnar yn 2020 bydd set o baneli lliwgar ac addysgiadol yn cael eu gosod a fydd yn disgrifio'r lleoedd a'r bobl sy'n bwysig i'r ardal o amgylch pentrefi Tre'r-ddôl a Thre Taliesin.

Mae aelodau o'r gymuned eisoes wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau a oedd â'r nod o ddatgelu pethau y mae pobl yn credu sy'n arwyddocaol am y ddau bentref a'r ardal gerllaw. Mae'r rhain wedi cynnwys diwrnod agored cychwynnol ym mis Chwefror, taith gerdded hanesyddol gyda Nigel Callaghan, ymweliad â Phont ar Fynach i ddarganfod mwy am y bele'r coed sydd bellach yn byw yn y coetiroedd ger Cletwr a phrynhawn dathlu yng Nghors Fochno.

Mae Dathlu Cymuned yn brosiect sy'n agored i bawb sy'n byw yn yr ardal ac sydd â diddordeb yn nhreftadaeth naturiol, hanesyddol a diwylliannol Tre'r-ddôl a Thre Taliesin. Y bwriad yw y bydd y paneli terfynol yn adlewyrchu syniadau a ddaw gan aelodau o'r gymuned ac yn defnyddio rhai o'u geiriau a'u delweddau. Mae digwyddiad wedi'i drefnu yn Cletwr ddydd Iau Medi 19eg rhwng 7.0 a 9.0 y.h. pryd y bydd syniadau ar gyfer y paneli yn cael eu trafod. Dewch draw i gymryd rhan.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Cletwr Events neu cc@cletwr.com.

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gws £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245

garethwhitelion@outlook.com

Buyd da... Cwmni da!

BLACK LION HOTEL

Blac

01970 832 555

croeso@yblac.co.uk



Cneifio Cyflym Tal-y-bont

Daeth tyrfa niferus ynghyd i fwynhau gwledd o gneifio a chystadlu brwd yn y Cneifio Cyflym a hynny yn ei leoliad newydd ar fferm Neuadd Fawr, Tal-y-bont ar noson Sioe Tal-y-bont. Bu 68 o gneifwyr yn cystadlu'n unigol yn ystod y noson a nifer yn cystadlu gyda'r timau gan greu digon o waith i'r tri beirniad brwd, y tri Dei, sef Dei Nutting, Dei Evans a Dei Thomas. Cafwyd sylwebu craff a hwyliog gan Dewi Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont a Geraint Jenkins, Cerrigcaranau, Tal-y-bont trwy gydol y noson a chyflwynwyd Cwpan Coffa Dei Neuadd Fawr yn rhoddedig gan y teulu i'r Cneifiwr Cyflymaf sef Guto Hughes, Llansannan. I gloi'r noson cafwyd dawns yng nghwmni'r band Newshan.

Hoffai'r trefnwyr ddiolch o galon i Deulu Neuadd Fawr am fenthg y lleoliad, i Rhydian am fod yn Brif Noddwr ac am bob cefnogaeth. Diolch hefyd i'r noddwyr hael ac i bawb fu'n cynorthwyo ar y noson a chyn hynny wrth baratoi.

Y CANLYNIADAU:

Ieuencid

1. Rhys Lewis, Machynlleth (24.24)
2. Dafydd Roberts, Llanfachreth (25.99)
3. Rhidian Edwards, Betws Gwerfil Goch (27.57)

Canolradd

1. Jac Lôn, Llansannan (22.44)
2. Dafydd Roberts, Goginan (21.63)
3. Dyfan Jones, Lledrod (25.72)

Dosbarth Uwch

1. Guto Hughes, Sportsmans, Llansannan (20.48)
2. Jac Lôn, Llansannan (20.71)
3. Dafydd Davies, Pennant (21.59)

Agored

1. Gwion Evans, Tanllan, Llangynfelyn (20.88)
2. Dewi Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont (20.91)
3. Dafydd Davies, Pennant (27.21)

Hen Lawiau

1. Gerallt Evans, Hendre Rhys, Trawsgoed (21.84)
2. Phillip George, Y Garth, Lledrod (24.51)
3. Enoc Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont (26.76)

Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Papur Pawb

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cymdeithas Papur Pawb ar 2 Gorffennaf. Diolchwyd i'r holl wirfoddolwyr sy'n cynorthwyo i sicrhau bod Papur Pawb yn ymddangos yn brydlon. Diolchwyd yn arbennig i Robat ac Enid Gruffydd ac Arthur Dafis a Rebecca Williams sy'n rhoi'r gorau i fod yn olygyddion. Da oedd medru adrodd bod Non a Gerwyn Jones a'r ddwy chwaer Rhian Nemes a Siân Evans am lenwi'r bylchau yn y tîm golygyddol.

Etholwyd y pwyllgor canlynol:

Cadeirydd: **Catrin M S Davies**

Is-gadeirydd: **Richard Huws**

Ysgrifennydd: **Rhian Evans**

Trysorydd: **Rebecca Williams**

Swyddog hysbysebion: **Trish Huws**

Golygydd Cyffredinol: **Gwyn Jenkins**



Llechwedd Mawr

Mae Evan Evans, Tynrhelyg, Tal-y-bont, a'i deulu wedi bod yn darparu bythynnod gwyliau ers dros ddeng mlynedd. Bellach mae un o'r tai, Llechwedd Mawr, wedi ennill "Gwobr Werdd" Menter Aberystwyth 2019 am y bwthyn mwyaf eco cyfeillgar.

Adeiladwyd Llechwedd Mawr ym 1886 a bu teuluoedd yn byw yno tan 1956 pan gollwyd mynediad wrth i argae Nant-y-moch gael ei adeiladu. Safodd yn wag am 55 mlynedd, gan wrthsefyll yr holl dywydd a daflwyd ato dros y blynyddoedd. Yn 1981 adeiladwyd trac un filltir a hanner o hyd o gyfeiriad Tal-y-bont pan ddefnyddiwyd y bwthyn i storio porthiant gaeaf i ddefaid!

Dechreuodd y gwaith adnewyddu yn 2011 a chymerwyd gofal i'w wneud mor gyfeillgar ECO â phosibl, gydag insiwleiddiad llawr, wal a llofft yn fwy na'r fanyleb gyfredol a ddefnyddid ar y pryd. Codwyd estyniad bach yn y cefn a chyntedd yn y tu blaen i fanteisio ar y golygfeydd ysblennedd. Defnyddiwyd cerrig a llechi i gyd-fynd â'r adeilad gwreiddiol.

Fe'i gosodwyd gyntaf fel bwthyn gwyliau ar 11 Medi 2013.

Dyma'r disgrifiad gorau o'r bwthyn:

- 'Mae'n anghysbell, mae'n unigryw, mae'n OFF GRID, mae ganddo ei gyflenwad dŵr ei hun a thanc septig preifat! Cyfathrebir trwy loeren dros y ffôn a WiFi.
- Mae trydan i'r bwthyn yn cael ei gyflenwi gan fanc mawr o fatris, mae'r rhain yn cael eu hailwefru gan solar neu eneradur, yn dibynnu ar y tywydd.
- O fis Mawrth i Hydref, gall y rhan fwyaf, os nad yr holl drydan gael ei gynhyrchu gan ynni haul. Mewn dyddiau heulog hir bydd yn fwy na'r gofynion. Mae ynddo wresogyddion annibynnol y gall gwsteion eu troi ymlaen gyda'r nos fel eu bod yn gyfforddus.'

Yn ôl Evan "Mae rhentu bythynnod yn gyfle i werthu Ceredigion a Chymru ac wrth gwrs yr iaith, diwylliant, hanes, tirwedd a'r diwydiant amaethyddol. Mae'r ymwelwyr yn cael eu croesawu bob amser yn Gymraeg yn gyntaf gyda 'Croeso i Gymru'."

Llongyfarchiadau i Evan a'i deulu ar eu menter.

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576



Eisteddfod Llanrwst

Roedd trigolion ardal *Papur Pawb* yn hollbresennol yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Ar y dydd Sadwrn cyntaf cafwyd seremoni anarferol pan groesawyd criw o seiclwyr o Geredigion i lwyfan y pafliwn. Roeddent wedi seiclo o Dregaron i Aberystwyth ar y dydd Gwener ac yna o Aber i Llanrwst (taith o 70 milltir) ar y dydd Sadwrn er mwyn codi arian ar gyfer Eisteddfod 2020. Yn eu plith oedd Elaine Rowlands, Gerwyn Jones a Lefi Gruffydd o Dal-y-bont, Clive Williams (cyn-brifathro ysgol Tal-y-bont) a Nia Peris (cyn aelod o staff Y Lolfa). Roedd Eifion Jones hefyd wedi seiclo'r cymal o Dregaron i Aberystwyth.

Ar y dydd Llun cynhaliwyd seremoni ar lwyfan y pafliwn pan gyflwynwyd Medal Syr T H Parry-Williams i Falyri Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont, am ei chyfraniad i'r gymuned leol. Yn cymryd rhan yn y seremoni oedd côr o ddisgyblion a chyn-ddisgyblion Ysgol Tal-y-bont dan arweiniad Siwan Evans, gyda Catrin Saunders-Jones yn cyfeilio. Cafwyd perfformiad gwefreiddiol o'r gân 'Ceidwad y Goleudy' gan Geraint Howard. Dangoswyd ffilm hefyd a wnaed gan Catrin M S Davies o Fal yn cynnal sesiwn cerdd gyda phlant yr Ysgol Feithrin. Prifathro'r ysgol, Mr Hefin Jones, oedd yn gyfrifol am lawer o'r trefniadau ar gyfer cyfraniad y gymuned i'r seremoni.

Ar y dydd Gwener yn y Babell Lân, cyflwynwyd Tlws Barddas er cof am John Glyn Jones i Gwenallt Llwyd Ifan, Tal-y-bont, am yr englyn gorau a luniwyd yn yr Ymryson yn ystod yr wythnos. Dyma'r englyn:

Rheolau

Torri'n rhydd o'n trywydd bob tro - wna'r mab
ar y maes, a chrwydro
wna'i ymennydd lle mynno
gyda'i wg Morgannwg o.

Fel mae'n digwydd, John Glyn a ddysgodd Gwenallt i gynganeddu pan oedd e'n byw yn Ninbych yn yr 1990au.

(Mae lluniau Fal a Gwenallt yn yr atodiad lliw.)

STORFA HUNAN FYNEDIAD

UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

MONITRO DIOGELWCH
24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Tel: 01654 703502
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ www.midwalesstorage.co.uk

EISTEDDFOD

Ceredigion 2020



Cafwyd noson lwyddiannus yn Fferm Ffwrnais ar Nos Sadwrn, 22ain o Fehefin, i godi arian at yr Eisteddfod Genedlaethol 2020. Roedd y tywydd yn fendigedig, a daeth tyrfa gref i fwynhau'r rhostio mochyn, oedd yng ngofal Margaret Hughes, Borth, gydag amrywiaeth o ddiodydd, a hufen ia.

Mwynhawyd y grŵp offerynnol gwerin o dan arweiniad, Nigel Hardy o Dre'rddol, a'r grŵp iwcylelis lleol 'Iwcahwyl'.

Braf oedd gweld llawer yn mentro i ddawnsio. Diolch i bawb am eu cefnogaeth, a hyfryd iawn oedd cael cynhorthwy plwyfi Ceulanamaesmawr, a Llangynfelyn.



Codwyd y swm sylweddol o £2,400, a hefyd derbyniwyd cyfraniad hael o £200 gan Gyngor Cymuned Ysguborycoed.



Cynhaliwyd stondin codi arian i Eisteddfod 2020 yn Sioe Tal-y-bont gyda'r gwirfoddolwyr yn gwerthu tocynnau raffl a chrysau-T.

Teyrngedau

Tegwen Jones

Yn dilyn ei marwolaeth yng Nghartref Hafan y Waun ddechrau Mehefin, cynhaliwyd angladd y diweddar Tegwen Jones, Tŷr Coedwigwr, Tal-y-bont gynt. yng nghapel Bethel ar 24 Mehefin. Dyma ran o'r deyrnged a roddwyd iddi gan ei merched, yn ystod y gwasanaeth.

Mam

Bod yn fam oedd y peth pwysicaf erioed i Tegwen. Gwarchod Llinos, Gaynor ac Eirian a wedyn bod yn famgu ofalus i Catrin a Nia. Ni chafodd yrfa ac nid aeth ymlaen gydag addysg uwchradd a choleg. Ei galwedigaeth hi oedd gofalu am ei theulu bach a bod yn wraig ffyddlon i Goronwy.

Fe'i ganwyd yn Goginan i William a Sali Howells ac roedd yn un o chwech o blant. Gobeithiai fod yn nyrs ond bu'n gofalu ers yn ifanc iawn am ei brodyr iau pan oedd ei mham yn wael. Roedd Goginan yn agos iawn at ei chalon ac roedd y lle ar ei gwefusau yn amlach nag unrhywle arall pan oedd yn dweud stori yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Storiâu am ffrindiau bore oes megis Gareth Gwarllan, Margaret y Wern, Iris Boone, ei chwaer Gweneira a'i brodyr Geraint, Byron, Meurig a Dewi; enwau megis Rocky Lane, fferm Blaendyffryn, Cwmsymlog, Jones y Siop ar Sgwyl cas yn yr ysgol oedd ar flaen ei chof. Dyma'r atgofion oedd yn ei chadw yn llawen – atgofion am yr amser gynt a dyddiau di-bryder ieuencid. Dyma'r lle y darganfyddodd y ddawn i ganu ac ers yn hogen fach bu'n cystadlu yn Eisteddfodau Goginan a Phonterwyd. Yn ei barn hi dyma'r 'good old days gone by.'

Cyfarfu Goronwy yn Goginan a phriodi yno ym mis Rhagfyr 1953. Symudodd laweroedd o weithiau oherwydd natur ei waith. Roedd yn anodd gorfod codi pac a symud efo'r merched yn ifanc ac ail-sefydlu cartref a gneud ffrindiau newydd, ond nath hi erioed gwyno na gwrthod mynd - cyn belled fod y carped coch a du drud oedd yn y parlwr yn mynd i ffitio'r ty nesaf.

Cafodd Tegwen a Goronwy ymddeoliad llawen yng nghwmni ei gilydd yn Nhal-y-bont yn rhannu diddordebau megis y capel, gweithgareddau'r gymuned, gneud Pryd ar Glud a chanu mewn corau. Cafodd mam flynyddoedd lawer yn mwynhau canu gyda Chôr Merched Ceulan ac mae sawl albwm llunie yn llawn o luniau'r sbort a gafwyd ar eu tripie i gynnal cyngherddau. Ac wedyn yr ardd wrth gwrs. Goronwy yn tyfu llysie a ffrwythau a Tegwen yn eu piclo a gwneud jam – wastad yn ei ffedog. Gwneud gwin hefyd am gyfnod. Y llaethdy bach yn llawn poteli gwin mwyar a mafon ac ysgawen, a'r corcyn yn tasgu i ffwrdd weithiau fel swn dryll yn atseinio drwy'r tŷ. Chwerthin mawr, a mam yn falch bod y gwin yn mynd i fod yn un da! Roedd Sioe Tal-y-bont yn binacl y flwyddyn i'r ddau ohonynt a'r paratoi at y cystadlu yn dechre wythnosau ymlaen llaw. Cael dod gartre efo cwpan yr un yn rhoi pleser o'r mwyaf iddynt.



Cafodd mam fywyd syml ond llawn afaith a phrofodd fod gwneud y pethe bychain mewn bywyd yn bwysig. Fe'n dysgodd ni i fod yn hyderus, yn sensitif, yn ffyddlon ac yn ddewr ac roedd hi'n berson sbesial iawn.

Llinos, Gaynor ac Eirian

Harold Lewis

Fe fu farw Harold Lewis, gynt o Dynllwyn, Llangynfelyn, ac yn ddiweddarach Mans-y-capel, Tal-y-bont, ar 9 Mai 2019 yn 94 mlwydd oed.

Ganed ef yn Eglwysfach yn 1925 gan fynychu ysgol y pentref ac yna ysgol y sir ym Machynlleth. Yn 13 oed aeth i weithio fel garddwr yn Neuadd Ynyshir ond yna ymunodd â'r Llynges gan wasanaethu ar fwrdd *HMT Finesse*, llong ysgubo ffrwydron, yn ystod y rhyfel.

Wedi'r rhyfel, cyfarfu â Mary Owens, un o Ferched y Tir a weithiai ar fferm Dolclettwr, a'i phriodi yn 1948. Yn 1951 prynon nhw Tynllwyn, Llangynfelyn, gan ffermio yno am sawl blwyddyn a hefyd magu pump o blant. Yn ogystal â'r fferm, bu 'Harold Tynllwyn' yn rheolwr ar 'Dovey Valley Estates' a oedd yn ceisio adennill tir gwlyb er mwyn ei amaethu.

Ddechrau'r 1960 llwyddodd i gael trwydded rhwyd *seine* a oedd yn caniatáu iddo bysgota ar yr afon Ddyfi. Ymfalchiai ei fod yn cynnal y traddodiad o bysgota yn y dull hwn am dros 50 mlynedd. Bellach delir y drwydded gan ei wŷr, Jake.

Am gyfnod yn yr 1970au cadwodd Harold a Mary gaffi ger y patsyn glas yn Nhal-y-bont cyn cymryd drosodd caffi'r Orsaf yn Aberystwyth.

Wedi ymddeol roedd wrth ei fodd yn garddio a pharhau i bysgota. Yn y cyfnod hwn, ef oedd testun un o raglenni mwyaf poblogaidd S4C, 'Cefn Gwlad', gan ddangos i'r byd a'r betws ei sgiliau pysgota ar yr afon Ddyfi.

Roedd 'Harold Tynllwyn' yn un o wir gymeriadau'r ardal a bydd colled ar ei ôl.

Teyrnged gan deulu Harold

Richard Collins, Taliesin

Meddyliwr mawr oedd Richard Collins, yn ddyn tawel. Gyda'i bartner Flic Eden a'u dau fab, symudodd i Dre Taliesin ym 1991. Bu'n gweithio gyda'r tir, gyda'r coed, yn codi waliau a phontydd. Roedd yn hapus yn syllu tua'r gorwel. Yn 2005, yn 49 oed, ysgrifennodd ei nofel gyntaf,

The Land as Viewed from the Sea ond dw i'n hoffi meddwl ei fod wedi treulio llawer o'i fywyd yn ysgrifennu – ond nid ar bapur. Ychydig ar ôl hynny, fe gafodd ddiagnosis bod Clefyd Parkinson arno. Bu hyn yn gyfrifol am ei newid mewn cymaint o ffyrdd. Fe'i gorfodwyd i adael ei swydd addysgu yn y coleg amaethyddol yn Aberystwyth. Gan ddarganfod y pethau nad oedd ei salwch yn ei atal rhag eu gwneud, treuliodd Richard a Flic lawer o amser yn teithio'r byd. Buont yn cerdded ym Mynyddoedd Himalaia, yr Alpau a'r Andes gan deithio ar fysus lleol drwy'r Dwyrain Canol, India a De America. Mae ei lyfr olaf, *The Road to Zagora*, yn eithaf hunangofiannol gan sôn am ei deithiau, ei fywyd a'i salwch.

Yn sicr, fe wnaeth Richard fyw bywyd i'r eithaf yn y tair blynedd ar ddeg ers ei ddiagnosis. Wrth i'w iechyd ddirywio, daeth o'i gragen go iawn fel cymeriad ecsentrig, yn artist llawn syniadau. Mae'n bosib eich bod wedi'i weld o'n sgipio i lawr y lôn neu'n cario berfa dros ei ben - dyma ddwy ffordd o gael ei goesau i weithio'n iawn. Dyffryn Dyfi oedd ei hoff le; roedd yn caru'r tirwedd, yn edmygu'r artistiaid lleol ac yn ei eiriau yntau, roedd yn hapus treulio ei ddyddiau olaf yn y baradwys yma.

Teyrnged gan Peter, un o feibion Richard



Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

Colofn Ben Lake

Pan gefais fy ethol i wasanaethu Ceredigion, feddylies i erioed y bydden i'n gweld wythnos yn San Steffan ble bu i'r Prif Weinidog ohirio'r Senedd, siarad yn erbyn cael etholiad cyffredinol ac yna, dau ddiwrnod yn ddiweddarach, cynnig cynnal etholiad. A gweld ŵyr Winston Churchill yn cael ei daflu allan o'r Blaid Geidwadol!



Yr hyn sydd wedi fy nghynnal dros y misoedd diwethaf yma yw fy ngwrthwynebiad i dderbyn gadel yr UE heb gytundeb. Dwi wedi pleidleisio ochr yn ochr â'r Democratiaid Rhyddfrydol, y Blaid Lafur, a'r Blaid Werdd yn ogystal ag Aelodau Seneddol Toriaidd blaengar er mwyn osgoi Brexit heb gytundeb, ac rydym wedi llwyddo hyd yma.

Bu i Geredigion bleidleisio o drwch blewyn i barhau i fod yn rhan o'r UE. P'run ai bleidleisioch chi i aros neu beidio, drwy siarad â nifer ohonoch dros yr haf, dwi'n gwybod bod y rhan fwyaf ohonoch chi o'r un farn - y byddai Brexit heb gytundeb yn niweidiol iawn i Geredigion ac economi Cymru.

Mae pobl wedi cael digon o'r oedi a'r ansicrwydd, a dwi'n ymwybodol y gallai hyn arwain at gredu y byddai'n well mynd ati i gael Brexit heb gytundeb er mwyn rhoi stop ar yr holl anrhefn yma ac i 'symud ymlaen' o'r diwedd. Ond, yn fy marn i, byddai gadael heb gytundeb yn ddinistriol, ac yn bell iawn o fod yn 'fwled arian' fel sy'n cael ei awgrymu gan rai: byddai'r anrhefn anochel yn niweidio busnesau a sefydliadau Ceredigion, ac mae'n bosib na fyddai nifer o ffermydd teuluol yn gallu goresgyn y sioc i'r economi.

Ni fyddai gadael heb gytundeb yn rhoi golygu bod y trafodaethau yn dod i ben - byddai angen trafod a chytuno ar berthynas masnachol y DU gyda'r UE - ac yn wir gyda'r holl wledydd eraill y mae ganddi gytundebau masnach. Mae'r Llywodraeth wedi awgrymu petai Brexit yn digwydd heb gytundeb, byddai'n mynd ar drywydd cytundeb masnachol Canada+ gyda'r UE. Bu i'r cytundeb gwreiddiol rhwng Canada a'r UE gymryd 7 mlynedd i'w thrafod. Yn hytrach na symud ymlaen wedi Brexit, byddai gadael heb gytundeb yn golygu blynyddoedd lawer o drafodaethau a negodi dibendraw.

Yn fy marn i mae'n ormod o risg. Mae pob darn o ymchwil dros y misoedd diwethaf yn dangos yn glir y byddai cymunedau Ceredigion ac economi Cymru yn dioddef yn sylweddol yn sgil gadael heb gytundeb. Wrth bleidleisio i Adael, roedd pobl yn disgwyl y byddai modd gadael yr UE mewn modd trefnus a chall, ac nid mewn modd sy'n creu ansicrwydd sylweddol ac sy'n mynd i fod yn eithriadol o niweidiol i'r economi.

Am y rhesymau hyn dwi wedi penderfynu gwrthwynebu Brexit heb gytundeb. Ni fydd pawb yn cytuno gyda fy mhenderfyniad, ond fel eich Aelod Seneddol mae'n rhaid i mi wneud penderfyniadau ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael i mi, a fy nod bob amser yw gweithredu er lles pobl a chymunedau Ceredigion.

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL




01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Y Gair Olaf



Pan dwi'n dod adre i Dal-y-bont i dreulio'r penwythnos un o fy hoff bethau yw cael neud bach o bobi efo Mam a'm chwaer. I ni'n dechrau drwy drafod y rysetiau i ni ddarganfod yn ddiweddar ac yna'n rhoi go arni funud olaf. Yn aml fyddai'n troi at ryset Americanaidd o'r we, o lyfr cogydd enwog, neu yn dilyn fidio ar YouTube...ond mae hyn i gyd am newid! Yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn Llanrwst, cefais hyd i hen lyfr coginio diddorol ar stondin siop lyfrau ail-law'r Hen Bost.



Teitl y llyfr yw 'Llyfr Prydiau Bwyd' gafodd ei ysgrifennu gan Myfanwy Evans yn 1932. Rhaid cyfaddef nad yw'r rysetiau yn swnio'n gyffroes iawn, ac mae'r dafodiaith yn ddieithr, felly mi fydd yn sialens ceisio dilyn y cyfarwyddiadau. Dwi ddim yn hollol siŵr be i wneud pan ofynnir i mi "mwydo'r pys" neu ble i ddechrau efo "Mold Pen Dafad" ond ma' un peth yn sicr bydd dim angen poeni os bydd "aelodau Urdd Gobaith" yn digwydd galw i'r tŷ, gan fod Myfanwy yn awgrymu wyth math o 'Fara Enllyn' er mwyn gwneud brechdanau! Pennod wych arall yw 'Ymborth i'r Claf' sy'n cynnwys rysetiau fel 'Jwncet' (llaeth, siwgr a rennet), 'Diferion Aur' (sudd oren, mel ac olive oil) a 'Tost At Y Ddannodd' (tost gwlyb heb grwstyn).

Dwi'n edrych ymlaen i gael arbrofi efo'r prydiau estron yma ond dwi'n amau'n fawr y bydd y daith yn un llyfn. Fel mae Myfanwy Evans yn nodi, "Hawdd anrhefn mewn cegin".

Jeno Lewis

Helo gan Dan o Bro360!

Shwmai bawb, a chroeso i golofn gyntaf Bro360 ym Mhapur Pawb! Fy enw i yw Daniel Johnson a dwi'n gweithio fel Ysgogydd y prosiect yng ngogledd Ceredigion. Bwriad y cynllun yw eich galluogi chi i greu a rhannu eich straeon lleol ar-lein - yn Gymraeg ac yn aml-gyfrwng.

Ers rhai misoedd ry'n ni di bod yn cysylltu â chlybiau, mudiadau a chymdeithasau ac yn crynhoi unigolion gweithgar yn yr ardal ynghyd i weld beth sydd ei angen ar eich bro, a'r ffyrdd gwahanol o ddefnyddio cyfryngau digidol.

Rydwi'n ysgrifennu hwn y bore ar ôl pumed gweithdy y prosiect. Yn y noson honno, ar ôl llunio rhestr fer o enwau posib i'r wefan; trafod beth sydd ei angen mewn enw; casglu barn ar stepen y drws a chrynhai pleidleisiau trwy gyfryngau digidol; penderfynodd y criw lleol ar enw'r gwasanaeth - sef BroAber360!

Dros y misoedd nesa byddwch yn clywed mwy am y prosiect wrth i ni ddod â'r gwasanaeth yn FYW mewn amryw ffyrdd. Cadwch lygad allan am y manylion, wrth i ni ddod â chyffro a photensial BroAber360 i'ch stepen drws!

Tan tro nesa'.
Dan



CHWARAEON



Pwyllgor y club pêl-droed yn noson parti diwedd tymor y club a gynhaliwyd yn y Llew Du, Llanbadarn Fawr ar 15 Mehefin

CPD Tal-y-bont

Am dymor arall bydd pêl-droedwyr Tal-y-bont yn chwarae eu gemau ar feysydd y coleg ym Mlaendolau gan y methwyd â darganfod maes addas yn y pentref hyd yn hyn.

Dechrau ychydig yn siomedig i'r tymor a gafwyd, gyda'r tîm yn colli tair o'r pum gêm gynghrair gyntaf. Enillwyd o bedair gôl i un yn erbyn Bont a chyfartaf 3-3 oedd hi yn erbyn Penrhyn-coch ond collwyd 3-1 i Padarn, 2-0 yn erbyn yr hen elyn Bow Street ac yna 8-1 yn erbyn Tregaron.

Mae gan Dregaron dîm cryf iawn gan ennill pob un o'i gemau hyd yn hyn ac felly roedd y golled drom hon ddim mor annisgwyl.

Bydd y bechgyn yn 'mynd eto' (a defnyddio'r cliché ofnadwy hwnnw) yn erbyn Aberdyfi ar 14 Medi, gan obeithio am well lwc.



Jamie Barron yn ceisio'i orau i arbed un o goliau Bow Street (llun drwy garedigrwydd Bev Hemmings)

argraffu da
am bris da



Y Lolfa

holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com


parhad o dud 1

Ail-Wylltio yn Gwylltio Ffermwyr

Erbyn hyn mae gwefan Brydeinig *Rewilding Britain* yn pwysleisio'i ddymuniad i gydweithio gyda chymunedau a thirfeddianwyr lleol. Eto i gyd mae rhai'n parhau i ddrwgdybio'r fenter ac yn arbennig y cwmni cyfoethog Arcadia sy'n ariannu'r prosiect. Cymaint yw'r pryderon fel bod un o'r partneriaid, Ecodyfi, bellach wedi tynnu nôl o'r cynllun. Dywedodd Andy Rowland ar ran Ecodyfi:

"Mae'r newid agwedd at y prosiect yn y gymuned amaethyddol yr ydym yn dibynnu i raddau helaeth arno, yn ein haflonyddu yn gynyddol. Mae'r prosiect yn adlewyrchu ffocws y partneriaid ar yr amgylchedd, ac yn talu llawer llai o sylw i agweddau diwylliannol, ieithyddol, cymdeithasol ac economi datblygu cynaliadwy, sy'n sylfaenol i'r gymuned gyfan."

Bydd trigolion yr ardal hon yn siŵr o gadw golwg ar weithgareddau *Rewilding Britain*, yn arbennig gan fod BREXIT yn bygwth cymunedau Cymru, gan gynnwys rhai amaethyddol. Bydd hynny'n siŵr o arwain at gyfnod o ansicrwydd yn y byd amaethyddol a chyfleoedd i gwmnïau ariannog fanteisio ar wendidau mewn economïau bregus fel un cefn gwlad Cymru.



Llythyr

Annwyl Olygydd

Cyfes i Radio Cymru yn nodi 70 mlynedd ers sefydlu'r Gwasanaeth Cenedlaethol

Rhwng 1949 a 1963 bu'n rhaid i fechgyn o Gymru rhwng 17 a 21 oed ymrestru yn y fyddin.

Cafodd dros gan mil o ddynion o Gymru eu gorfodi i adael eu cartrefi a'u teuluoedd er mwyn gwisgo lifrai milwr.

Dyma'r 'National Service' - y Gwasanaeth Milwrol Cenedlaethol. Dyma'r genedlaeth ddaeth i oed ar ôl yr Ail Ryfel Byd, yr "in-betweeners" - yn rhy ifanc i ymladd yn yr Ail Ryfel Byd, yn rhy hen i fwynhau'r newidiadau cymdeithasol a ddaeth i bobl ifanc yn ystod y 1960au.

Mae Cwmni Silyn yn chwilio am gyfranwyr i son am eu profiadau yn ystod y cyfnod hwnnw ar gyfer cyfres newydd i Radio Cymru.

Buoch chi neu un o'ch perthnasau yn un o'r "milwyr bychain"? Os do, rydym yn awyddus i glywed am eich hanes ar gyfer ein cyfres newydd.

Disgwyl mlaen i siarad gyda chi!

Cysylltwch gyda Gaynor Jones ar 07775 847710 neu drwy e-bost preseli31@gmail.com.

Pob hwyl a diolch

Gaynor Jones